**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**17eg Mawrth 2008**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

**Adroddiad gan Ian Miller,**
**Clerc i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Ystyried yr adroddiad sydd ynghlwm gan y Pwyllgor Safonau.

**Cefndir**

**2.** Fel mater o lywodraethiad corfforaethol da, mae'r Pwyllgor yn darparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub ar ei weithgareddau yn ystod pob blwyddyn ariannol. I'r diben hwn, fe gafodd y Pwyllgor gyfarfod ar 15fed Chwefror 2008 i gytuno ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2007/08.

**3.** O ganlyniad, mae pedwerydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor sy'n cynnwys ei weithgareddau rhwng Ebrill 2007 a Mawrth 2008, ynghlwm er ystyriaeth aelodau.

**Argymhelliad**

**4.** Fod yr Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

## PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

### Adroddiad blynyddol

**1.** Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o Ebrill 2007 hyd Mawrth 2008.

### Aelodaeth

**2.** Yn ei gyfarfod ar 19eg Mawrth 2007, fe gytunodd yr Awdurdod Tân ac Achub i gais y Pwyllgor fod aelod annibynnol ychwanegol yn cael ei benodi i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai cynyddu'r nifer o aelodau annibynnol sy'n eistedd ar y Pwyllgor o 3 i 4, yn gymorth wrth sicrhau cworwm ar gyfer cyfarfodydd. Yn anffodus, gan na wnaed darpariaethau yng nghyllideb Gwasanaethau Pwyllgor 2007/08 ar gyfer y broses recriwtio, nid oedd yr Awdurdod wedi gallu symud ymlaen gyda recriwtio aelod annibynnol ychwanegol tan yn ddiweddar. Hefyd, yn ystod 2007, roedd tymor penodiad un o'r aelodau annibynnol, Mr Simon Fysh, wedi dod i ben. Fodd bynnag, yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth, sydd nawr yn caniatáu ailbenodi aelodau annibynnol am ail dymor heb orfod hysbysebu'r swydd, fe gymeradwyodd yr Awdurdod ailbenodi Mr Fysh am dymor pellach o 4 mlynedd. Mae ei benodiad yn rhedeg hyd 28ain Medi 2011.

**Aelodaeth** *(parhad)*

**3.** Felly, roedd aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn:

<u>Aelodau annibynnol</u>
Mr Chris Bretherton-Watt (cadeirydd)
Mr John Pollard YH (is gadeirydd)
Mr Simon Fysh

<u>Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub</u>
Cynghorydd Gwilym O Williams
Cynghorydd Cliff Shone

**Cyfarfodydd a gynhaliwyd**

**4.** Mae'r ddeddfwriaeth yn pennu fod rhaid i bob Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith pob blwyddyn galendr. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymdrechu i gwrdd o leiaf dwywaith y flwyddyn, rhyw 6 mis ar wahân, neu'n amlach os oedd angen. Fodd bynnag, dim ond un cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2007/08, ar 15fed Chwefror 2008. Oherwydd yr oediad gyda chyflwyniad y Cod Ymddygiad Enghreifftiol Diwygiedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac oherwydd nad oedd gan y Pwyllgor fusnes arall i'w drafod oedd yn gofyn galw cyfarfod, cymrwyd y penderfyniad i beidio â chynnal y cyfarfod arferol yn ystod hydref 2007. Yn ystod y flwyddyn trafodwyd busnes arall trwy ohebiaeth, ac mae manylion wedi eu darparu'n hwyrach yn yr adroddiad.

**Cyfarfodydd a gynhaliwyd** *(parhad)*

**5.** Roedd presenoldeb fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Mr Chris Bretherton-Watt | (1/1) |
| Mr John Pollard YH | (1/1) |
| Mr Simon Fysh | (1/1) |
| Cynghorydd Gwilym O Williams | (1/1) |
| Cynghorydd Cliff Shone | (1/1) |

**6.** Roedd cost ychwanegol gweithgareddau'r Pwyllgor Safonau, yn cynnwys teithio a chynhaliaeth, argraffu, postio ac ati, wedi ei amcangyfrifo i fod o dan £250 yn ystod y cyfnod oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Materion a drafodwyd**

**7.** Yn ei gyfarfod ar 15fed Chwefror 2008, yn ychwanegol i'r eitemau busnes safonol 'Diweddariad am y Ddeddfwriaeth' a Gwariant y Pwyllgor, fe gyflwynwyd gwybodaeth am sefydlu 'Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol', sut mae'n effeithio'r awdurdodau tân ac achub a'i oblygiadau i bwyllgorau safonau. Rhoddwyd ystyriaeth i 'Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub' hefyd. Fe drafododd aelodau y trefniadau arfaethedig ar gyfer hyfforddi a datblygu aelodau newydd o'r Awdurdod Tân ac Achub yn ogystal ag aelodau sy'n dychwelyd yn dilyn etholiadau'r awdurdodau lleol ym mis Mai 2008.

**Materion a drafodwyd** *(parhad)*

**8.** Ni adnabuwyd anghenion hyfforddiant ychwanegol ar y fframwaith moesegol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau nac ar gyfer aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub yn ystod y flwyddyn gyfredol. Er hynny, fel yr adroddwyd llynedd, nodwyd fod cyflwyniad y Cod Ymddygiad Enghreifftiol Diwygiedig yn ystod 2008 yn gofyn am y ddarpariaeth o hyfforddiant i'r holl aelodau ar y newidiadau yn dilyn cyflwyno y Cod diwygiedig. Disgwylir i'r cod diwygiedig gael ei gyflwyno i gyd-fynd â chyflwyniad yr Awdurdod newydd ac felly, bydd hyfforddiant ar y fframwaith moesegol yn cael ei darparu i'r holl aelodau fel rhan o'u rhaglen sefydlu. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r cynghorau cyfansoddol i sicrhau fod yr hyfforddiant a ddarperir ganddynt hwy yn cynnwys gofynion yr Awdurdod Tân ac Achub fel sy'n briodol.

**Busnes a drafodwyd drwy ohebiaeth**

**9.** Yn ystod 2007/08, hysbyswyd aelodau o'r pwyllgor drwy ohebiaeth, am weithrediad 'Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiaeth) (Cymru) 2007' a sut oedd yn gymwys i'r pwyllgorau safonol o dan y 'Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Diwygiad) 2007'. Hysbyswyd aelodau am y cyhoeddiad a chynnwys Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2006/07. Hefyd, er diben gwybodaeth, dosbarthwyd copïau o bapurau achlysurol gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau ar gyfer Lloegr ar 'Predisposition, Predetermination or Bias, and the Code' i'r Pwyllgor.

**10.** Fel yn y blynyddoedd blaenorol, dosbarthwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau i holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub er gwybodaeth.

**Cwynion yn erbyn aelodau o’r Awdurdod Tân ac Achub**

**11.** Yn ystod cyfnod yr adroddiad yma, ni wnaed unrhyw gwynion am gynghorwyr parthed eu swyddi fel aelodau o’r Awdurdod Tân ac Achub. Felly, doedd dim materion wedi cael eu cyfeirio at y pwyllgor am archwiliad neu benderfyniad. Mae’r pwyllgor yn gobeithio bydd y sefyllfa foddhaol yma’n parhau.

**Gweithgareddau eraill ymgymerwyd â hwy gan aelodau o’r Pwyllgor Safonau**

**12.** Mynychodd Mr Simon Fysh gyfarfod o Banel Gweithredol yr Awdurdod ar 6$^{ed}$ Mawrth 2008 fel sylwedydd.

**Casgliad**

**13.** Mae’r Pwyllgor Safonau yn argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi’r adroddiad yma a’r angen am hyfforddiant ar fframwaith moesegol a’r cod ymddygiad diwygiedig yn dilyn yr etholiadau i’r awdurdodau lleol yn 2008.